



## Pwysigrwydd adeiladu timau amrywiol

- 1** Eglurwch i'r grŵp eu bod yn mynd i wneud gweithgaredd a darllen cartŵn i ddeall pam mae cydweithio ac amrywiaeth yn bwysig ym myd gwaith. Gofynnwch i bawb ddarllen y cartŵn 'Arwyr y Tywydd'. Gofynnwch i'r grŵp pam roedd cydweithio'n bwysig yn y stori hon. Faint o bobl a weithiodd gyda'i gilydd i ddatrys yr her? A allai un o'r cymeriadau yn y stori fod wedi datrys yr her ar ei ben ei hun? Esboniwch ei fod yn bwysig mewn llawer o weithleoedd i wahanol dimau weithio gyda'i gilydd, i ddod â chyfuniad o sgiliau ac arbenigedd.
- 2** Gofynnwch i'r grŵp feddwl am sut mae pob cymeriad yn wahanol. Anogwch nhw i feddwl y tu hwnt i swydd pob cymeriad er mwyn canolbwyntio ar eu gwahanol rinweddau. Gallai'r atebion gynnwys eu hoedran, rhywedd, ethnigrwydd. Esboniwch fod gweithleoedd yn gyfle i gwrdd a meithrin perthnasoedd â phobl o gefndiroedd a diwylliannau amrywiol.
- 3** Gofynnwch i bawb ystyried pa fuddion y gallai fod i weithlu amrywiol. Er enghraifft:
  - Gall helpu i gyflwyno gwahanol farnau, syniadau ffres a safbwyntiau newydd ar ffyrdd o ddatrys problemau.



20 munud



Gwaith grŵp



Cartŵn arwyr y tywydd

- Gall helpu pobl i deimlo eu bod wedi'u gwerthfawrogi, sy'n golygu ein bod yn hapusach, yn fwy cynhyrchiol ac yn gweithio'n well gyda'n gilydd.
- Gall helpu i rwydweithio a meithrin perthnasoedd cryfach ag eraill e.e. os ydych yn teithio dramor neu'n mynd i le newydd lle byddwn yn cyfarfod â phobl o wahanol wledydd, cenedloedd, diwylliannau ac ethnigrwydd.
- Gall herio stereoteipiau a thueddiadau yn y gweithle e.e. pe byddent wedi clywed y stori hon heb weld Sophie na gwybod ei henw, a fyddent wedi dychmygu menyw? Bydd llawer yn dweud na, oherwydd yn hanesyddol mae gyrfaoedd STEM yn gysylltiedig â dynion, ac mae lleiafrif o fenywod yn y gyrfaoedd hyn o hyd (mae 11% o'r gweithlu peirianeg yn fenywod). Gallai gweld rhagor o fenywod yn y swyddi hyn ysbrydoli eraill i wneud yr un dewisiadau, ac felly gallwn barhau i amrywio ein gweithlu.

**4** Dewch â'r gweithgaredd i ben ac annog y grŵp i feddwl am ble mae dod ag amrywiaeth i'w hamgylchedd eu hunain, bywyd cartref neu waith ysgol wedi bod o fudd iddynt e.e. pan maeant wedi gweithio ar brosiectau grŵp, wedi trafod gyda rhywun â safbwynt gwahanol, wedi croesawu myfyriwr cyfnewid neu berthynas sy'n byw dramor ac ati.

**5** Gofynnwch am ychydig o wirfoddolwyr i rannu eu syniadau a'u henghreiffitiau a thrafod fel grŵp. I ddod â'r gweithgaredd i ben, anogwch nhw i gofio bod amrywiaeth yn llesol yn eu hamgylchedd.